

❖ ADREF DROS Y NADOLIG

Darllen: Mathew 2:7–8

‘Does gen i ddim awydd mynd i unman dros y Nadolig; mae’n well gen i fod adref.’ Pa mor aml fyddwch chi’n clywed hyn? ‘Methu deall pam fod pobl eisiau mynd i ffwrdd dros yr ŵyl. Meddyliwch amdany’n mynd i wlad boeth! Fedrwn i ddim dathlu’r Nadolig wrth dorheulo ar lan y môr. Na, gartref ar yr aelwyd mae’n lle ni.’ Dowch i ni droi at stori’r Nadolig, ac mae pethau’n bur wahanol. Chafodd Mair a Joseff ddim bod adref yn Nasareth. Na, roedden nhw ar daith go hir, wyth deg a mwy o filltiroedd i Fethlehem Jwdea, dinas Dafydd. Roedd gofynion y cyfrifiad wedi’u galw nhw yno, yn ôl Luc. Taith hir iawn oedd hi, a Mair yn feichiog. Ac wedi cyrraedd yno, doedd dim llawer o groeso a dim lle yn y llety. Roedd y ddau wedi cael eu galw o’u cynefin i fynd ar daith.

Ac felly roedd hi yn hanes y seryddion. Pobl ar grwydr oeddent hwythau hefyd – o bellteroedd Mesopotamia. Y seren, beth bynnag oedd honno, oedd wedi eu harwain ar y daith. Mae cryn drafod ynglŷn â’r seren. Pa seren? Roedd dau ddigwyddiad o bwys yn y cyfnod hwn. Y cyntaf oedd ymddangosiad comed Halley (rhwng 12 ac 11 cc) a oedd yn weladwy o’r ddaear yn ystod tymor y gaeaf. Yn y cyfnod hwnnw roedd dyfodiad comed i’r ffurfafen yn arwydd o ddigwyddiad anarferol a chwyldroadol. Yn ôl pob tystiolaeth teithiai’r gomed o gyfeiriad y dwyrain gan wanhau pan oedd uwchben ac yna cryfhau unwaith yn rhagor cyn machlud yn y gorllewin. A’r ail ddigwyddiad hynod oedd cyfosodiad tair planed, sef Iau, Sadwrn a Mawrth, a oedd yn edrych o’r ddaear fel petaent gyda’i gilydd ac felly’n sicr o greu goleuni llachar. Digwyddodd hyn oddeutu’r flwyddyn 8 cc. Hyd y gwyddom, nid oes cofnod gwyddonol o ddigwyddiad cyffelyb y flwyddyn y ganed Iesu. Beth bynnag oedd y goleuni llachar hwn, fe arweiniodd y seryddion at grud y baban Iesu.

Cael eu tynnu o sicrwydd eu cynefin wnaeth y bugeiliaid hefyd. Yn ôl eu harfer roedden nhw’n gwyllo eu praidd ar y llethrau uwch Bethlehem pan ymddangosodd angylion i’w hysbysu fod gwaredwr y byd wedi’i eni. Fe adawson nhw eu cynefin a mynd ar frys, ‘a chawsant hyd i Fair a Joseff, a’r baban yn gorwedd yn y preseb’ (Luc 2:16). Mae’n amlwg eu bod wedi mynd oddi yno i ddweud wrth eraill; hwy oedd y cenhadon cyntaf i rannu’r newyddion da, ‘Rhyfeddodd pawb a’u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt’ (Luc 2:18).

Chafodd Mair a Joseff ddim aros gartref, na’r seryddion na’r bugeiliaid chwaith. Ond gartref yr oedd y brenin, Herod Fawr. Yn ei balas yr oedd ef pan ddaeth y seryddion heibio, ac ef oedd yr unig un na chafodd weld y baban. Er iddo ofyn i’r seryddion ddychwelyd ato, ‘rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a’i addoli’ (Mathew 2:8) dychwelyd i’w gwlad ar hyd ffordd arall oedd eu hanes.

Pererinion ydyn ni, ac ar y daith y mae canfod Iesu. Tybed ydyn ni’n rhy statig a llonydd?

Myfyrdod pellach:

Tybed ydi stori’r Nadolig yn rhy gyfarwydd i ni?

Sut mae goddiweddyd yr elfennau seciwlar a materol sydd o amgylch yr ŵyl? Tybed oes angen ail enwi’r ŵyl – Gŵyl yr Ymgawdoliad?